

Rhaglen yr Oriel

Haf – Gaeaf 2019

Art Central Celf Ganolog



VALE of GLAMORGAN



www.valeofglamorgan.gov.uk/arts

Celf Ganolog • Neuadd y Dref • Sgwâr y Brenin • Y Barri • CF63 4RW



Dathlu'r Celfyddydau yn y Fro **Ar agor tan ddydd Sadwrn 3 Awst**

Mae Oriol Gelf Ganolog yn 'Dathlu'r Celfyddydau yn y Fro' gydag arddangosfa o waith artistiaid y Fro. Cewch fwynhau cymysgedd o decstilau cain, cerflunwaith trawiadol, manwl a chyffyrddadwy, paentiadau, lluniau ac argraffiadau manwl a lliwgar; barddoniaeth deimladwy a ffotograffiaeth ysbeidiau amser anarferol. Mae rhai darnau o gelf yn dangos lleoedd annwyl yn y Fro heddiw, rhai yn dod ag atgofion o'r oes a fu, a rhai eraill yn mynegi emosiynau, difyrwch, hud a drama anhygoel.



Clwb Camera'r Barri **Dydd Llun 12 Awst - dydd Sadwrn 7 Medi**

Mae Sioe Haf Clwb Camera'r Barri yn gymysgedd o ffotograffau sy'n arddangos diddordebau aelodau'r clwb. Wedi'i sefydlu ym 1905, hwn yw'r clwb camera hynaf yng Nghymru sy'n dal i weithredu. Mae'r grŵp yn annog ac yn hybu ffotograffiaeth ar bob lefel, o ddechreuwr pur i bobl broffesiynol. Gan gynnig sesiynau llawn hwyl, mae sgiliau a phrofiad y grŵp yn hybu cyfranogiad a chystadleuaeth. I gael rhagor o fanylion ewch i: www.barrycameraclub.co.uk

Yn Agor – Dydd Sadwrn 10 Awst | 1am- 1pm



Iron Maidens II: Made in Wales | Llinell a Ffurf **Dydd Llun 16 Medi – dydd Sadwrn 19 Hydref**

Iron Maidens II: Mae *Made in Wales*, yn grŵp cerflunwyr benywaidd sy'n defnyddio haearn bwrw yn ddefnydd i'w cerfluniau. Crëwyd y grŵp yn wreiddiol yn dilyn arddangosfa ar y cyd gydag artistiaid o'r DU a'r UD a aeth ar daith fel 'Iron Maidens' rhwng 2009-14. Heddiw, mae Iron Maidens II yn grŵp o gerflunwyr sydd wedi ymgartrefu yng Nghymru ac sy'n cael eu cyffroi gan y prosesau naturiol a natur yr haearn bwrw. Maent yn arddangos eu gwaith gyda'r nod o ysbrydoli'r gynulleidfa i ymgysylltu â harddwch y deunydd hwn ac annog eraill i ddefnyddio a rhoi cynnig ar ei bosibiliadau lu.



Mae *Llinell a Ffurf* yn arddangosfa deithiol sy'n cynnwys pedwar cerflunydd y mae eu gwaith nhw yn edrych ar fyd natur drwy eu deunyddiau a'u gwaith cerfio, bwrw a gosod. Mae llinell yn rhan annatod o waith pob un ohonynt. Mae ailadrodd llinell dros arwynebau gwastad neu grwn yn creu ffurf.

"Mae cerfluniaeth yn yr ugeinfed ganrif yn faes eang o brofiad, gyda sawl agwedd ar symbolau a deunyddiau a chaligraffeg unigol."

Yn Agor – Dydd Sadwrn 14 Medi | 1am- 1pm

Barbara Hepworth

Rydym ni hefyd yn creu celf: Arddangosfa gwaith celf gan aelodau Cymdeithas Celfyddyd Gyfoes Cymru (CASW)
Dydd Llun 28 Hydref – dydd Sadwrn 16 Tachwedd

Mae "Rydym ni hefyd yn creu celf" yn gymysgedd eclecticig o waith Celf Gyfoes gan aelodau amatur addawol a rhai proffesiynol o CASW. Byddwch yn gweld cymysgedd o gyfryngau, mathau ac arddulliau gwaith. Corff elusennol yw'r Gymdeithas a grëwyd yn y 1930au yn dilyn y dirwasgiad economaidd ac sy'n hyrwyddo dealltwriaeth a gwerthfawrogiad o'r Celfyddydau yng Nghymru. Ei chred yw y gall ymgyssylltu â chelfyddydau effeithio ar iechyd a lles yr unigolyn a'u gwella. Ymysg yr aelodaeth mae pedwar deg o weithwyr proffesiynol y celfyddydau sydd wedi addysgu yn genedlaethol ac yn rhyngwladol, gan arddangos ledled y DU a thramor. Am fanylion ewch i: www.casw.org.uk



Yn Agor – Dydd Sadwrn 26 Hydref 11am- 1pm

Dydd Iau 14 Tachwedd Drysau'n agor am 6:30pm | Sgwrs 7pm

Sgwrs Cyfeillion Oriol Gelf Ganolog

Bydd yr Athro Tony Curtis yn cyflwyno "May We Live in Interesting Times..." Biennale Fenis eleni, canllaw i gelf, llongddrylliadau a daps Stella McCartney!



Canolfan Crefftau: Arddangosfa Gwneuthurwyr a Dylunwyr o'r Fro

Dydd Sadwrn 23 Tachwedd – dydd Sadwrn 21 Rhagfyr

Bydd Canolfan Crefftau yn arddangos gwneuthurwyr, dylunwyr ac artistiaid sy'n byw ac yn gweithio ym Mro Morgannwg adeg y Nadolig. Mae'n gyfle gwych i brynu gwaith celf gwreiddiol ynghyd ag arhegion ar brisiau fforddiadwy, gan gynnwys gwaith cerameg, coed, tecstilau, cyfryngau cymysg ac argraffiadau. Dewch i gwrdd â'r gwneuthurwyr a gweld sut mae'r eitemau'n cael eu gwneud a dysgwch sgiliau newydd. Dyma sioe a wneir ar y cyd rhwng Adran Datblygu Celfyddydau Bro Morgannwg a chwmi Inc Creative: Creadigol sy'n gweithio yn y Fro. www.inc-creative.wales



Yn agor dydd Sadwrn 23 Tachwedd 10am

Yr Oriol Gelf Ganolog

Oriol Celf Ganolog yw prif leoliad celfyddydau gweledol Cyngor Bro Morgannwg. Mae yng nghanol y sir, yn y Neuadd y Dref a Llyfrgell Edwardaidd brydferth ar sgwâr y Barri. Yn lleoliad unigryw, mae gan yr oriel nawws gyfoes, ynghyd â goleuo naturiol gwych sy'n dod drwy'r ffenestri bwa. Mae'r lleoliad ysbennnydd, teimladol hwn yn berffaith i arddangos gwaith celf, cynnal digwyddiad arbennig, gweithdy, cyfarfod, sgysiau a llawer mwy. Os oes gennych ddi-ddordeb mewn llogi'r oriel cysyllwch â artinthevale@valeofglamorgan.gov.uk neu ffoniwch Oriol Celf Ganolog ar 01446 709805.



Sefydliad aelodau sy'n frwd dros gelf yw **Cyfeillion Oriol Gelf Ganolog** sy'n dod o bob cwr o'r Fro a'r cyffiniau. Mae'r Cyfeillion yn cefnogi ac yn mwynhau digwyddiadau yn yr Oriol Gelf Ganolog, oriel gelf fawreddog y Cyngor. Mae pwyllgor bach o Gyfeillion yn trefnu sgysiau gydag artistiaid, ymweliadau diwylliannol, cyfarfodydd cymdeithasol a Thaith Flynyddol i Lundain. Drwy weithio gyda Rheolwr yr Oriol mae nifer o aelodau yn mwynhau gwirfoddoli yn yr arddangosfeydd, y digwyddiadau agoriadol a rhai eraill ac yn rhoi eu cefnogaeth drwy warchod hefyd. Os hoffech ymuno â nhw neu gael gwybod mwy am Gyfeillion Oriol Gelf Ganolog, ewch i: www.artcentralfriends.org

Ar gyfer agoriadau a digwyddiadau yn yr oriel ewch i'n gwefan www.bromorgannwg.gov.uk neu cysylltwch â'r Rheolwr yr Oriol a Datblygu Celf, manylion isod, gweler y wasg leol am fanylion neu ewch i **Cyfeillion yr Oriol Gelf Ganolog www.artcentralfriends/events**

Rhagor o wybodaeth: artinthevale@valeofglamorgan.gov.uk neu 01446 709805